

SWYDDI CYNGOR
RHONDDA CYNON TAF
COUNCIL JOBS

RHONDDA CYNON TAF







Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Candidate Information Pack

DISGRIFIAD SWYDD - YMARFERYDD GOFAL PLANT PRESWYL

A chithau'n Ymarferydd Gofal Plant - Preswyl, byddwch chi'n rhan o garfan ofalgar sy'n darparu cartref diogel a chefnogol. Mae gwaith y cartref yn cael ei arwain gan Reolwr Cofrestredig ac uwch aelodau profiadol o staff.

Byddwch chi'n ymroi i wella bywydau plant sydd ag anghenion cymhleth a rhai sydd wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod.

Byddwch chi'n darparu gofal a chymorth, a bydd gofyn i chi weithio mewn modd creadigol, gan ymgymryd â gweithgareddau a gwaith uniongyrchol. Byddwch chi'n cael eich cefnogi ac yn derbyn hyfforddiant i weithio mewn amgylchedd therapiwtig gan fanteisio ar y Model Adfer Trawma.

Bydd llawer o'ch gwaith chi'n cynnwys cefnogi unigolion i weithio trwy eu profiadau unigol gan weithio tuag at wella a meithrin cydnerthedd i gyflawni nodau personol.

Cyfeirnod y Swydd: Amrywiol
Dyddiad y Disgrifiad Swydd: Hydref 2023

Gradd	GRADD 7
Canolfan/Swyddfa	YN BERTHNASOL I BOB CARTREF PRESWYL Y GWASANAETHAU I BLANT
Cyfadran	GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
Uwchadran	GWASANAETHAU I BLANT
Adran	GWASANAETHAU CYMORTH I'R TEULU A MATERION LLETY
Carfan/ Is-garfan	GWASANAETHAU PRESWYL
Yn atebol i	RHEOLWR COFRESTREDIG
Swyddi sy'n atebol i'r swydd yma	DIM
Oes angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	OES - MANWL, GWEITHLU PLANT – ADNEWYDDU BOB 3 BLYNEDD GAN GYNNWYS RHESTR GWAHADD

Pam gweithio i Gyngor Rhondda Cynon Taf?

Croeso i Gyngor Rhondda Cynon Taf, un o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru. Dyma ein delfryd ar gyfer Rhondda Cynon Taf: "Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol."

Trwy weithio i ni, bydd eich cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth er gwell yn ein cymunedau. Rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n rhoi boddhad, ac sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau.
Rydyn ni'n darparu rhaglenni sefydlu, hyfforddi a datblygu rhagorol i'ch helpu i dyfu yn eich swydd a'ch gyrfa. Byddwch chi'n cael eich herio a'ch cefnogi trwy gyfleoedd newydd i feithrin sgiliau newydd a throsglwyddadwy wrth ichi wneud gwahaniaeth.

Llesiant a Chydbwysedd Gwaith-Bywyd
Yn ein Strategaeth Llesiant y Gweithlu gynhwysfawr, sy'n cydnabod y nifer o elfennau sy'n dylanwadu ar lesiant cyffredinol. Rydyn ni'n cynnig ystod eang o fuddion a gwasanaethau cymorth i'ch helpu i ffynnu yn y gweithle.

Bydd modd i chi gael ystod eang o fuddion staff gan gynnwys Aelodaeth **Hamdden am Oes** am bris gostyngol, **Cerdyn 'Vivup'** i gael gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a gwasanaethau a chynllun **Beicio i'r Gwaith**.

Rydyn ni'n comisiynu **Rhaglen Cymorth i Weithwyr** sy'n rhoi modd i gael cymorth ynglŷn â lles 24/7 yn ogystal â chyfoeth o adnoddau ar-lein gan gynnwys llyfrau gwaith hunangymorth, podlediadau ac asesiadau iechyd.

Mae'n **cynllun pensiwn** ni yn cynnig buddion cystadleuol, gydag arbedion ariannol ychwanegol i'w cael gyda gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a thechnoleg a chynlluniau prynu ceir sy'n darparu ffyrdd ychwanegol o reoli cyllid personol, i gyd ar gael drwy'r wefan **buddion staff**. Mae cyfleoedd pellach i hybu lles ariannol drwy ddysgu mwy yng ngweithdai **Salary Finance**.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith drwy bolisïau hyblyg sy'n addas i deuluoedd ynghyd â chynnig gwyliau blynyddol hael o 26 diwrnod o wyliau i chi (pro rata, yn cynyddu i 31 ar ôl gwneud 5 mlynedd o wasanaeth), ynghyd ag 8 gŵyl gyhoeddus a'r opsiwn i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol (hyd at 10 diwrnod pro rata). Mae ein gweithle cynhwysol hefyd yn dathlu amrywiaeth gyda nifer o rwydweithiau staff gan gynnwys Rhwydwaith y Cynghreiriaid, Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr, 'Perthyn' (rhwydwaith LHDTC+) a Sbotolau ar gyfer staff Du, Asiaidd, a staff sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Bwriwch olwg ar ein tudalennau gyrfaoedd i gael rhagor o wybodaeth am weithio i ni.

Lleoliadau'r swydd:

CARTREF CYMUNED BEDDAU

Wedi'i leol ym mhentref Beddau, Pontypridd. Mae'r cartref yma'n darparu gofal hirdymor a chymorth i 5 o blant a phobl ifainc.

TŶ WILLOWFORD

Wedi'i leoli yng Ngwaelod y Garth, Pontypridd. Mae'r cartref yma'n darparu gofal hirdymor a chymorth i 3 o blant a phobl ifainc.

TŶ BRYNNA

Wedi'i leoli ym Mhont-y-clun. Mae'r cartref yma'n lleoliad unigol hirdymor sy'n darparu gofal a chymorth i 1 plentyn/person ifanc

BRYNDÂR

Wedi'i leoli yng Nghwmdâr, Aberdâr. Mae'r cartref yma'n darparu gofal hirdymor a chymorth i 5 o blant a phobl ifainc.

NANTGWYN

Wedi'i leoli yn Aberdâr. Mae'r cartref yma'n darparu seibiannau byr i hyd at 5 o blant a phobl ifainc sydd ag anabledd.

CARN INGLI

Wedi'i leol yn Aberdâr. Mae'r cartref yma'n darparu asesiad tymor byr i 2 blentyn a pherson ifanc.

YSTRAD FECHAN

Wedi'i leoli yn Nhreorci. Mae'r cartref yma'n darparu lleoliadau un diwrnod ar gyfer 5 o blant a phobl ifanc sydd angen asesiad o'u hanghenion

CARTREF MYNYDD

Wedi'i leol yn Aberllechau ger Porth, mae'r cartref yma'n darparu gofal hirdymor a chymorth i 4 o blant a phobl ifainc.

TŶ NI

Wedi'i leoli yn Llanharan, mae'r cartref yma'n lleoliad unigol hirdymor sy'n darparu gofal a chymorth i 1 plentyn/person ifanc.

TŶ BWLCH

Wedi'i leol yn Treorchy, mae'r cartref yma'n darparu gofal a chymorth tymor byr i 2 o blant a phobl ifanc sydd â nam ar eu hiechyd.

Lleoliadau eraill yn Rhondda Cynon Taf

Er mwyn bodloni anghenion a'n dyletswyddau i blant a'u teuluoedd, mae'r Cyngor yn datblygu lleoliadau gofal preswyl newydd ychwanegol.

Diben y swydd:

Sicrhau bod gwasanaeth medrus ac arbenigol yn cael ei ddarparu ar gyfer plant/pobl ifainc a'u teuluoedd sy'n cael trafferthion, drwy ddarparu lleoliadau wedi'u cynllunio a lleoliadau ar yr un diwrnod ar gyfer plant/pobl ifainc. Bydd y rôl yma'n ymwneud â darparu gofal a chymorth sy'n ystyrlon o drawma naill ai ar sail gofal seibiant, gofal wedi'i gynllunio neu ofal ar yr un diwrnod. Bydd deiliaid y swydd yn gweithio'n uniongyrchol â phlant, eu teuluoedd/cynhalwyr/gwarcheidwaid a phobl broffesiynol eraill i sicrhau eu bod nhw'n cyflawni eu nodau personol.

Byddwch chi'n gweithio mewn modd arloesol sy'n ystyriol o drawma i sicrhau deilliannau cadarnhaol i blant a phobl ifainc sy'n agored i niwed. Byddwch chi hefyd yn darparu ymyriadau ystyrlon i blant/pobl ifainc fel sydd wedi'i nodi yn eu cynlluniau unigol

Byddwch chi'n cefnogi plant/pobl ifainc i ddychwelyd gartref at eu rhieni, aelodau o'r teulu neu gynhalwyr/gwarcheidwaid pan fo hynny'n ddymunol.

Darparu ymyriadau ar sail tystiolaeth i bawb sy'n ymwneud â chynllun plentyn/person ifanc drwy waith uniongyrchol ac arfer sy'n ystyriol o drawma.

Diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifainc sydd mewn argyfwng.

Cymryd rhan mewn gwaith â phartneriaid, ac ymgysylltu yn effeithiol a chydweithio ag ystod o weithwyr proffesiynol a sefydliadau.

Gweithio mewn partneriaeth â phlant/pobl ifainc, rhieni/cynhalwyr/gwarcheidwaid a phobl berthnasol eraill er mwyn deall ac asesu anghenion, a llunio cynlluniau personol ar y cyd.

Cwblhau adroddiadau ysgrifenedig yn ôl yr angen yn unol â pholisïau ac arferion Gwasanaethau i Blant, ac yn unol â gofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Sicrhau bod pobl yn gwrando ar farn plant/pobl ifainc yn rhan o'u gofal o ddydd i ddydd.

Yr hyn y byddwch chi'n ei gyflawni:

1. Gweithio gydag eraill yn y garfan i gynllunio a darparu rhaglenni gofal unigol o ganlyniad i drawma i blant/pobl ifainc a'u teuluoedd/cynhalwyr.

2. Bydd yr Ymarferydd Gofal Plant Preswyl yn hyblyg yn ei ddull o ddarparu ymyriadau. O'r herwydd bydd yn gweithio yn hyblyg, gan gynnwys sifftiau'r bore/dydd, prynhawniau, penwythnosau a gwyliau statudol. Bydd angen cysgu yn y lleoliad i gyflawni rhai dyletswyddau hefyd.

3. Gweithredu'n Weithiwr Allweddol pwrpasol i blant/pobl ifainc unigol

4. Darparu ymyriadau sy'n cefnogi cryfderau plant/pobl ifainc

5. Darparu strwythur a threfn i fywyd bob dydd, trwy weithgareddau ac ymyriadau wedi'u cynllunio

6. Chwarae rhan weithredol mewn amrywiaeth o weithgareddau ac ymyriadau wedi'u cynllunio

7. Cyfrannu at strwythur a threfn y dydd trwy gynnal tasgau arferol, fel paratoi prydau bwyd, golchi dillad, glanhau, siopa a chefnogi plant/pobl ifainc i gyfrannu at hyn.

8. Mynd â phlant/pobl ifainc ar weithgareddau sydd wedi'u cynllunio er mwyn creu perthnasoedd ac ymddiriedaeth gadarnhaol, a hynny ar y cyd ag aelodau eraill y garfan.

9. Meithrin perthynas broffesiynol â'r plant/pobl ifainc a'u teuluoedd a defnyddio'r berthynas yna i ddiogelu plant ac annog deilliannau cadarnhaol.

10. Gweithio'n uniongyrchol â phlant/pobl ifainc a'u rhieni/cynhalwyr, naill ai ar wahân neu'n rhan o deulu.

11. Hyrwyddo lles plant a phobl ifainc drwy ddarparu gofal personol pan fo angen a cheisio annog eu diddordeb mewn addysg, y gymuned a ffordd iach o fyw.
12. Bod yn effro i arwyddion o bryder neu gam-drin, a sicrhau bod y plant/pobl ifainc yn cael eu monitro a'u diogelu.

13. Rhoi gwybod am unrhyw bryderon o ran ymarfer i'r rheolwr perthnasol heb oedi

14. Deall a pharchu hawliau plant a phobl ifainc

15. Cynnal cofnodion gan ddefnyddio'r system TGCh angenrheidiol

16. Ymgymryd â gwaith cofnodi yn unol â gweithdrefnau'r Uwchadran

17. Rhoi gwybod i gydweithwyr am ddatblygiadau perthnasol a throsglwyddo rhwng sifftiau

18. Rhannu gwybodaeth am blant/pobl ifainc ag asiantaethau eraill er mwyn diogelu a hyrwyddo eu lles, yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data

19. Nodi a chofnodi risg a chyfrannu at reoli'r rhain

20. Cadw mewn cysylltiad agos â'r Gweithwyr Cymdeithasol sy'n gyfrifol am achosion i sicrhau bod y cynllun yn symud yn ei flaen a darparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r gwaith sydd wedi'i gynnal a'r cynnydd yn ei gylch

21. Cysylltu ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill, er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi a'u diwallu

22. Diwallu anghenion corfforol plant/pobl ifainc lle bo angen, a lle bo'n rhan o'r cynllun personol

23. Rhoi meddyginiaeth yn unol â'r cynllun personol

24. Ymdrin â chwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn brydlon ac mewn modd sensitif, a hynny o fewn fframwaith Gweithdrefn Gwyno'r Cyngor

25. Mynychu cynadleddau ac adolygiadau achos, cyfarfodydd cynnydd a chyfarfodydd eraill pan fo angen, a chyfrannu atyn nhw

26. Hyrwyddo lles plant/pobl ifainc a phan fo'n briodol eirioli drostyn nhw

27. Bod yn aelod o'r garfan, rhoi cymorth i gydweithwyr a derbyn cymorth yn ôl yr angen

28. Gweithio â chydweithwyr ar achosion sy'n dod i'r amlwg

29. Mynychu cyfarfodydd carfan a chymryd rhan ynddyn nhw, yn ôl y gofyn
30. Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol yn y cartref a'i gyffiniau i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw, e.e. drwy ei lanhau

31. Cludo plant/pobl ifanc i apwyntiadau, cyfarfodydd ac ati yn unol â Dyletswyddau Rhieni

32. Bod yn atebol am arian wedi'i ddyrannu at ddibenion penodol

33. Cymryd rhan mewn goruchwyliaeth reolaidd yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

34. Cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi a datblygu staff y mae'r Rheolwr Llinell yn eu hystyried yn briodol

35. Darparu gwasanaeth sydd ddim yn gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd neu genedligrwydd

36. Glynu at safonau Iechyd a Diogelwch sy'n cydymffurfio â gofynion statudol a pholisïau'r Gyfadran

37. Cydymffurfio â deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau, gweithdrefnau a safonau arferion da

38. Gweithio yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n gymesur â'r swydd ar gais Cyfarwyddwr y Gwasanaeth neu yng ngoleuni cyfle cytûn i ddatblygu'n broffesiynol.

Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau iechyd a diogelwch perthnasol yn unol â threfniadau lleol.

Rhoi cymorth i'r Cyngor chwarae ei ran i fynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd ac i gyrraedd ei dargedau Lleihau Carbon ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu, a hefyd o ran y nwyddau a'r gwasanaethau hynny y mae'n eu prynu neu eu comisiynu gan sefydliadau eraill.

Mae gyda phob aelod o staff ran werthfawr a hanfodol i'w chwarae i gadw pobl yn ddiogel. Mae cyfrifoldeb ar unrhyw berson sydd â phryderon ynghylch diogelwch plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, NEU ymddygiad cydweithiwr tuag at blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, i roi gwybod am hyn ar unwaith. Dylid gwneud hyn trwy Reolwr Llinell yr unigolyn, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig neu drwy gysylltu â Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf.

BYDD CYNNWYS Y DDOGFEN YMA YN CAEL EI ADOLYGU O BRYD I'W GILYDD GAN YMGYNGHORI Â DEILIAD Y SWYDD. MAE'N BOSIBL BYDD Y DISGRIFIAD SWYDD YN NEWID YN SGIL HYNNY.

MANYLEB PERSON

Mae'r fanyleb yma'n nodi gwybodaeth a/neu gymwysterau, profiad yn y gorffennol, a chymwyseddau personol a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma.

Mae'r adrannau **Gwybodaeth/Cymwysterau** a Phrofiad yn disgrifio'r gallu technegol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y swydd yma yn llwyddiannus.

Mae'r adran **Cymwyseddau** yn disgrifio'r mathau o sgiliau (heb fod yn dechnegol), y galluoedd, a'r nodweddion personol, a fyddai gyda'r person sy'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma. Mae'r cymwyseddau yn disgrifio sut byddai'r person hwnnw, yn ddelfrydol, yn gweithio gyda phobl eraill a sut y byddai'n ymgymryd â'i gyfrifoldebau.

Mae'r adran **Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol** yn disgrifio unrhyw briodoleddau eraill sy'n briodol i'r amgylchiadau penodol a fo'n ymwneud â'r swydd yma.

Gwybodaeth/Cymwysterau:

Hanfodol	Dymunol
Ymrwymiad cadarn i ddatblygiad proffesiynol parhaus	FfCCh/NVQ Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifainc)
Ymrwymiad i ymgymryd â FfCCh Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifainc) a'i gyflawni ymhen dwy flynedd o gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru	
Dealltwriaeth o Anghenion Diogelu Plant a Phobl Ifainc	

Profiad:

Hanfodol	Dymunol
Tystiolaeth o ofalu am blant neu bobl ifainc yn uniongyrchol	Profiad o weithio gyda Phlant a Phobl Ifainc mewn argyfwng. Tystiolaeth o ymrwymiad i weithio gyda phlant/pobl ifainc sy'n wynebu argyfwng

Sgiliau Cymraeg:

Hanfodol	Dymunol
Cymraeg Lefel 1 ☒ *Bydd raid i bob gweithiwr gymryd rhan mewn sesiwn cyflwyniad i'r Gymraeg i gyrraedd y lefel yma* Cymraeg Lefel 2 ☐ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3-5. ☐ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐	Cymraeg Lefel 2 ☒ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3-5. ☐ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐

I gael manylion ynglŷn â'r lefelau, bwriwch olwg ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg.

Y sgiliau byddwch chi'n eu defnyddio yn y gweithle:

Fframwaith	**Fframwaith Cymwyseddau Gofal yn y Gymuned a Gofal**
Meysydd Cymhwysedd	**Ymddygiadau a gwerthoedd cymhwysedd**
Gofalu am les gorau defnyddwyr y gwasanaeth	Gwrando ar farn defnyddwyr y gwasanaeth a chynnwys y sawl sy'n gysylltiedig â nhw i bennu'r ffordd orau o symud ymlaen Cynorthwyo a galluogi defnyddwyr y gwasanaeth i wneud penderfyniadau
Sicrhau Canlyniadau	Cymryd cyfrifoldeb Yn hyblyg, yn gallu newid tasg/rôl/blaenoriaethau er mwyn dygymod â gorchmynion, newidiadau neu wybodaeth newydd Arddangos medr proffesiynol ac yn cyflwyno canlyniadau o ansawdd uchel yn gyson
Gweithio gyda Phartneriaid	Gweithio i oresgyn anghydfod er lles gorau defnyddwyr y gwasanaeth; Nodi gwerth ac arbenigedd eraill yn yr amgylchedd ehangach; Rhoi gwybodaeth gyfredol i bartneriaid ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd gyda defnyddwyr y gwasanaeth;
Gweithio gydag aelodau o garfan	Cydnabod bod gan bob aelod o'r garfan sgiliau a phrofiadau gwahanol a defnyddiol y mae modd manteisio arnyn nhw; Meithrin cydberthnasau parhaol, cadarnhaol a chefnogol yn seiliedig ar ymddiriedaeth; Cyfrannu at ysbryd tîm o rannu cyfrifoldebau;

Ennyn Ffydd Defnyddwyr y Gwasanaeth	Gweithio o fewn ffiniau proffesiynol clir wrth arddangos dealltwriaeth glir o'r problemau sydd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth Paratoi pecynnau gofal sy'n wirioneddol yn diwallu anghenion dynodedig a chynorthwyo i'w rhoi ar waith cymaint ag sy'n bosibl Canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymateb yn empathetig i les emosiynol a seicolegol yr unigolyn
Hybu Datblygiad Proffesiynol	Cydnabod bod modd gwella ei hun ym mhob achos; Cymryd rhan mewn gwaith adolygu a goruchwylio'n rheolaidd er mwyn nodi targedau a meysydd i'w datblygu;
Cyfathrebu'n Effeithiol	Gwrando o ddifrif ar farn pobl eraill ac ystyried yr hyn maen nhw'n ei ddweud mewn ffordd agored Cyfleu negeseuon anodd mewn ffordd sensitif Cyfathrebu'n glir ac yn gryno
Cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch	Rhoi mesurau ar waith i leihau risgiau i bobl eraill Bod yn effro i'r holl weithdrefnau perthnasol o ran iechyd a diogelwch

Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol

Cyfrifoldeb personol am gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar adeg penodi (neu ar ôl cwblhau'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol) a chofrestriad parhaus ar Ran 2 o'r Gofrestr wedi hynny

Gwiriad manwl Gweithlu Plant y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) adeg ei benodi, ac wrth adnewyddu cofrestriad bob tair blynedd wedi hynny

Bydd y swydd yma yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio mewn modd hyblyg y tu allan i oriau swyddfa arferol, gan gynnwys gweithio gyda'r nos/ penwythnosau/ gwyliau statudol

Bod yn hyblyg ac ymateb i flaenoriaethau sy'n newid

Gofyniad i deithio'n annibynnol ledled Rhondda Cynon Taf a'r tu allan i'r sir yn ôl yr angen.